# SIMAN TOV

*Traddodiadol Hebraeg (trefn. Gabriel Chernick)*

## YNGLŶN Â'R GÂN HON

**Cân orfoleddus o ddathlu a llongyfarch yw Siman tov ac fe'i cenir yn aml mewn priodasau Iddewig. Mae prif linell y gân yn golygu 'arwyddion da' a 'mazal tov' yn golygu 'lwc dda'.**

## THEMÂU/TESTUNAU

Dathliadau / teulu / byd

## CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL CWRICWLWM

Ieithoedd, Llafaredd a Chyfathrebu
Y Dyniaethau
Iechyd a Lles

## YSTYRIAETHAU SY'N BENODOL I'R DISGYBLAETH

### Cwmpas Lleisiol

11ed

### Ffurf Lleisiol

Unsain gydag ymadroddion ailadroddus

### Elfennau Cerddorol

Strwythur a ffurf

### Nodweddion Cerddorol

Dilyniannau unsain ailadroddus yn gymysg ag ymadroddion offerynnol sy'n adlewyrchu'r prif ddilyniannau melodig

## Ymarferion Cynhesu

- Dylai dysgwyr osod y ddwy fraich yn rhydd wrth eu hochrau a chadw eu pengliniau wedi plygu ychydig. Ar ôl cyfrif o bedwar, dylent godi'r ddwy fraich yn raddol, yn syth allan wrth eu hochrau ac anadlu i mewn. Ar ôl dal hwn am bedwar curiad, dylent ostwng eu breichiau'n araf, gan hisian allan yr aer heb ei orfodi.
- Gofynnwch i'r dysgwyr fwmian seiren, gan symud i fyny ac i lawr mewn traw, gan ddilyn eich signal llaw o uwch eich pen i isel i lawr ger eich gwasg.
- Sefwch mewn cylch a gofynnwch i'r dysgwyr gopïo mynegiant eich wyneb, o trist a hir i agored a llachar. Gwnewch wên fawr a dangoswch y bochau a chorneli'r geg wedi'u codi. Gwnewch lygaid effro mawr ac aeliau uchel, yna yn ôl i lygaid caeedig. Gofynnwch i unigolion fod yn arweinydd a gweddill y grŵp i ddilyn mynegiant eu gwynebau.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ganu graddfa C Mwyaf (CDEFGABC1), gan esgyn a disgyn i'r rhifau 1 i 8. Amnewidiwch un o'r rhifau â distawrwydd a cheisiwch berfformio. Tynnwch fwy o rifau allan yn raddol.
- Clapio'r rhythm canlynol - gofynnwch i'r dysgwyr ei ailadrodd yn ôl. Yna dywedwch y rhythm - dysgwyr i'w ailadrodd yn ôl.




## Awgrymiadau o gysylltiadau allweddol i'r Meysydd eraill, themâu trawgwricwlaidd a/neu chyd-destynau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol:

- Ymchwiliwch ymhellach i draddodiadau priodas Iddewig. Pam bod y Briodferch yn mynd o amgylch y priodfab saith gwaith? Pam bod y priodfab yn stampio ar wydr? Beth yw Chuppah? Darganfyddwch pam bod y Briodferch a'r Priodfab yn cael eu codi ar gadeiriau, ac ystyr dal hances boced rhyngddynt.
- Darganfyddwch fwy am ganeuon traddodiadol Hora sy'n cael eu chwarae mewn Priodas Iddewig a pha offerynnau sy'n cael eu chwarae yn y band Klezmer sy'n cyfeilio.
- Dysgwch ychydig o Hebraeg. Darganfyddwch fwy am yr iaith Semitig hon - mae'n cael ei darllen o'r dde i'r chwith, mae ganddi 22 o lythyrau sydd i gyd yn gytseiniaid.

**GRADDFA: CANOLRADD**

© CanSing Cymru 2022

# SIMAN TOV

*Traddodiadol Hebraeg (trefn. Gabriel Chernick)*

Cân Sing

## Addysgu a Dysgu

1 Eglurwch i'r dysgwyr fod geiriau'r gân hon yn Hebraeg, sef iaith draddodiadol yr Iddewon. * Mae'r sgrin ryngweithiol yn defnyddio sillafu cywir y geiriau. Mae'r daflen geiriau yn cynnwys ynganiad ffonetig symlach o'r geiriau.
2 Gwrandewch ar y gân unwaith hyd at ddiwedd Rhan B. Sylwch fod llawer o ymadroddion yn cael eu hailadrodd.
3 Dywedwch y llinell gyntaf yn uchel yn rhythm y gân yna gofynnwch i'r plant ei hailadrodd gan ddefnyddio'r dechneg 'Dw i'n deud, 'da chi'n deud,'. Defnyddiwch y dull hwn i ddysgu Rhan A yn ei gyfanrwydd.
4 Unwaith yn hyderus, gwrandewch ar Ran A ac yna dysgwch yr alaw fesul llinell, gan ddefnyddio'r dechneg 'Dw i'n canu, 'da chi'n canu,'. Os nad ydych yn hyderus yn gwneud hyn, defnyddiwch y Sgrîn a chwaraewch y llinell i'r plant cyn toglo'n ôl a'i hailadrodd er mwyn iddynt allu ei ganu yn ôl. Canwch Rhan A i gyd gan ddefnyddio'r Sgrîn ac ailadroddwch nes yn hyderus.
5 Gwrandewch ar Ran B a nodwch ble mae'r rhythm trawsacennog a ymarferir wrth gynhesu yn ymddangos.
6 Dysgwch geiriau Rhan B gan ddefnyddio'r un dechneg 'Dw i'n deud, 'da chi'n deud,' ac yna dysgwch yr alaw gan ddefnyddio 'Dw i'n canu, 'da chi'n canu' fel o'r blaen.
7 Mae Rhan C yn alaw wahanol sy'n cael ei defnyddio a'i phlethu'n aml yn y gân hon. Efallai y byddwch yn gweld bod dysgu Rhan A a B gyda'u hamrywiadau bach yn ddigon o gynnydd ar gyfer un sesiwn a phenderfynu gadael Rhan C tan y sesiwn ganlynol.
8 Chwaraewch Rhan C i'r plant. Cyflwynwch y geiriau llinell ar y tro yn rhythm y gân gan ddefnyddio 'Dw i'n deud, 'da chi'n deud'.
9 Nesaf, dysgwch alaw Rhan C. Sylwch fod y llinell gyntaf a'r ail yn debyg, a'r ail linell yn esgyn yn uwch. Pwysleisiwch y 'shalom-shalom' yn llinell 3. Pan fydd pob dysgwr yn hyderus gyda'r rhan hon, gofynnwch iddyn nhw ystyried amrywiad deinamig ar gyfer ailadrodd Rhan C.
10 Ewch yn ôl i ran A a nodwch y gwahaniaeth bach i ddiwedd y gân. Anogwch y plant i weiddi 'Hei!' fawr ar y diwedd.
11 Canwch y gân yr holl ffordd drwodd.

## Sgiliau Cyfannol

- Gofynnwch i'r plant greu amrywiad deinamig rhwng yr ymadroddion sy'n cael eu hailadrodd e.e. y ddwy adran A neu hyd yn oed fesul llinell. Rhannwch y plant i grwpiau a gofynnwch i bob grŵp ganu adran wahanol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeinameg cyferbyniol.

- Traddodiad gweddi Iddewig yw *Nigwn* - ble mae alaw yn aml yn cael ei chanu gyda seiniau ailadroddus yn lle geiriau ffurfiol. Dros adrannau offerynnol y cyfeiliant, gofynnwch i'r plant ddewis sain eu hunain neu gwpl o synau cysylltiedig i'w canu fel yr alaw. Modelwch hyn yn gyntaf: 'lai lai lai', 'dee dee dee'.

- Chwaraewch gêm o denis sain – gofynnwch i un plentyn ganu Nigwn ar gyfer ymadrodd ac yna ei bownsio i blentyn arall sy'n cymryd drosodd gyda Nigwn gwahanol. Ailadroddwch yn ystod yr adran offerynnol gyfan.

© CanSing Cymru 2022

GRADDFA: CANOLRADD

# SIMAN TOV

*Traddodiadol Hebraeg (trefn. Gabriel Chernick)*

Cân Sing

## Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:

*•Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfydig a chreadigol•*
*•Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a'r dychymyg•*

- Mae'r gân hon wedi'i chynllunio i gael ei chanu a'i dawnsio ar yr un pryd ar gyflymder sy'n cynyddu'n raddol. Heriwch y plant i ganu acapella (yn ddi-gyfeiliant) a chychwyn yn araf, gan gynyddu cyflymder nes y gallant ganu mor gyflym â phosibl. Pa mor gyflym y gallant fynd?
  Canwch i'r trac cefnogi cyflymder cyflymach tra'n dal i gynnal cywirdeb telynegol a chywirdeb traw.

- Dewch o hyd i fideo o'r gân a'r ddawns sy'n cael eu perfformio mewn priodas Iddewig. A oes unrhyw gamau neu symudiadau penodol? Heriwch y plant i gymryd rhan mewn dawnsio gwerin Iddewig. Mae hwn yn cael ei ddawnsio gan amlaf mewn cylch ac mae'n egnïol iawn. Ydy'r plant yn gallu copïo'r rhain yn gywir a chanu'r gân wrth iddynt ddawnsio? Dysgwch ddawns werin Gymreig draddodiadol. Sut maen nhw'n cymharu?

## Asesu ar gyfer Dysgu:

*•Mae ymateb a myfyrio, fel artist, ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol•*

### Holi

**Adnodd: Dim dwylo fyny**

- Rhowch enghraifft i mi o rythm a gyflwynir yn y gân hon. Ai rhythm dotiog neu syth yw hwn?
- Ydy naws y gân werin hon yn hapus neu'n drist? Eglurwch eich ateb.
- Enwch ganeuon gwerin eraill rydych chi'n eu hadnabod. Oes gan 'Siman Tov' unrhyw beth yn gyffredin â'r caneuon hyn?

### Adborth

**Adnodd: Adborth ar unwaith**

Rhowch adborth ar unwaith i ddysgwyr yn ystod y broses addysgu a dysgu; gallai'r adborth fod ar eu gallu i gynnal eu traw ac ynganu tra'n canu ar gyflymder uwch. Yn dilyn y broses ddysgu, rhowch adborth ar eu gallu i ymateb i'ch cyfarwyddiadau llaw wrth newid y lefelau deinamig.

### Hunanasesiad / Asesiad gan gyfoedion

**Adnodd: Asesu cyfoedion**

Gofynnwch i'r dysgwyr roi sylwadau ar waith ei gilydd. Dyma rhai sylwadau posibl i chi awgrymu:

- Ceisiwch ychwanegu amrywiaeth i'r deinamig yn y rhannau a ailadroddir.
- Ceisiwch wella eich tiwnio wrth ganu Rhan C.
- Ceisiwch wneud y geiriau'n gliriach.

© CanSing Cymru 2022

**GRADDFA: CANOLRADD**